# YNNI-Y FARGEN ORAU

cyngor ar bopeth

ofgem

Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Ynni – Y Fargen Orau

- Mae prisiau nwy a thrydan wedi codi ond gallwch leihau eich biliau ynni o hyd
- Mae datblygiadau yn y farchnad ynni wedi ei gwneud yn haws i chi chwilio am y fargen orau
- Gall Ynni – Y Fargen Orau eich helpu i sicrhau nad ydych yn talu mwy nag sydd ei angen

# Y wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad call

- Datganiad blynyddol neu gopi o'ch biliau mwyaf diweddar;
- Os ydych yn defnyddio mesurydd cerdyn, taleb neu allwedd gwnewch yn siŵr bod gennych syniad o faint rydych yn ei wario bob wythnos/mis ar ynni;
- Enw eich tariff presennol (os nad ydych yn ei wybod cysylltwch â'ch cyflenwr);
- Faint o arian y gwnaethoch ei wario ar ynni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Sut rydych yn talu am eich ynni ar hyn o bryd;
- Eich cod post.

# A yw'n beth doeth newid cyflenwr?

- Nid oes perygl y caiff eich cyflenwad ynni ei ddatgysylltu
- Ni fydd angen mesurydd newydd arnoch
- Bydd y nwy a'r trydan a gewch yn eich cartref yn aros yr un peth
- Yr unig wahaniaeth a welwch yw'r ffaith y cewch eich bil oddi wrth eich cyflenwr newydd

# A oes diben newid cyflenwr tra bod prisiau'n codi?

- Os nad ydych erioed wedi newid cyflenwr mae bob amser yn werth chwilio am y fargen orau
- Pan fydd prisiau yn codi efallai y bydd rhai cwsmeriaid yn ceisio sicrwydd drwy gynlluniau arbennig (e.e. prisiau sefydlog neu wedi'u capio)
- Efallai y bydd gan eich cyflenwr dariff rhatach rydych yn gymwys i'w gael - siaradwch ag ef

# A all bawb newid?

- Gall y rhan fwyaf o bobl newid cyflenwr
- Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ar fesurydd taleb, allwedd neu gerdyn

OND

- Os ydych yn rhentu eich cartref efallai y bydd y landlord wedi nodi na chewch newid eich cyflenwr yn y brydles

# Cymharu prisiau

- Er mwyn cymharu prisiau mae angen i chi gael gafael ar eich datganiad blynyddol / biliau ynni mwyaf diweddar neu fod â syniad o faint rydych yn ei wario bob mis os oes gennych fesurydd cerdyn, allwedd neu daleb
- Gall Cyswllt Defnyddwyr, sef y corff defnyddwyr, anfon y prisiau a gynigir yn eich ardal atoch drwy'r post - ffoniwch 08454 04 05 06
- Rhestrir gwefannau cymharu prisiau ar-lein cymeradwy yn www.consumerfocus.org.uk
- Neu gallwch ffonio cyflenwyr yn uniongyrchol

£££ YNNI- Y FARGEN ORAU
cyngor ar bopeth
ofgem

# Sut i newid cyflenwr

YNNI- Y FARGEN ORAU

**1** **Ffoniwch y cyflenwr** rydych am newid iddo a chytunwch ar gontract newydd

**2** Wrth siarad â'r cyflenwr ynni gwnewch yn siŵr eich bod yn **cadarnhau pa gynllun** y byddech yn ei hoffi e.e. cyfradd sefydlog

**3** Byddwch yn derbyn contract drwy'r post **– gwnewch yn siŵr ei fod yn gywir –** ac yn cael gwybod ar ba ddyddiad y byddwch yn newid cyflenwr

**4** **Gwnewch yn siŵr** eich bod wedi **talu pob bil sy'n ddyledus** gyda'ch cyflenwr presennol

**5** **Darllenwch y mesurydd** ar y diwrnod y byddwch yn newid cyflenwr fel eich bod yn gallu gwneud yn siŵr bod eich biliau'n gywir

cyngor ar bopeth

ofgem

# Dewis y fargen orau i chi

Nid oes rhaid i chi newid cyflenwr. Gallech arbed arian drwy dalu eich bil mewn ffordd wahanol, er enghraifft:

**Tanwydd deuol**

- Cael eich nwy a'ch trydan gan yr un cyflenwr
- Mae llawer o gyflenwyr yn cynnig gostyngiad os dewiswch danwydd deuol

**Cyfradd sefydlog**

- Mae hyn yn golygu na fydd pris eich ynni yn newid tra bo'r cynllun yn weithredol (noder y gellir codi tâl am adael y cynllun yn gynnar)

**Cynigion ar y rhyngrwyd**

- Gellir cynnig gostyngiadau i gwsmeriaid sy'n dewis cyfrif ar-lein (noder y gellir codi tâl am adael y cynllun yn gynnar)

**Debyd uniongyrchol**


- Daw eich taliadau ynni yn syth allan o'ch cyfrif banc

**Credyd safonol**

- Talu eich bil drwy siec, arian parod neu blastig

**Mesurydd taleb, allwedd neu gerdyn**

- Rydych yn talu am eich ynni ymlaen llaw drwy gerdyn, allwedd neu dalebau



# Cael help gyda'ch biliau ynni

- Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr ynni yn cynnig rhyw fath o help i gwsmeriaid sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau ynni

- Gall cwsmeriaid sy'n cael rhai budd-daliadau'r wladwriaeth gael arian oddi ar filiau drwy'r cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes

- Os credwch y gallech fod yn gymwys i gael Gostyngiad Cartrefi Cynnes neu os ydych yn ei chael yn anodd talu eich biliau ynni, cysylltwch â'ch cyflenwr ar unwaith i weld pa help sydd ar gael

- Mae Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes hefyd yn cynnig cyngor ar y Gostyngiad Cartrefi Cynnes i bobl sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau ar 0800 33 66 99

# Help gan y Llywodraeth

## Taliad Tanwydd Gaeaf

- Mae gan bawb sydd dros 60 oed hawl i gael taliad tanwydd gaeaf. Mae hyn yn amrywio o £100 i £300 yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol.
- Os nad ydych wedi bod yn cael y taliad hwn ffoniwch Linell Gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf ar 08459 15 15 15.

# Datblygiadau yn y sector ynni

Mae bellach yn ofynnol i gyflenwyr wneud y canlynol:

- Rhoi gwell gwybodaeth am filiau
- Rhoi datganiad blynyddol i chi
- Caniatáu i gwsmeriaid sy'n defnyddio mesurydd cerdyn, allwedd neu daleb newid cyflenwr hyd yn oed os oes ganddynt ddyledion o hyd at £200
- Peidio â chodi mwy arnoch am un math o ddull talu na'r llall, oni ellir cyfiawnhau'r taliadau gan y gost
- Sicrhau bod eu gwerthwyr ar garreg y drws yn rhoi amcangyfrifon ysgrifenedig a deunydd darllen sy'n glir, yn gywir ac yn hawdd eu deall

# Lleihau eich biliau ynni drwy sicrhau bod eich cartref yn fwy ynni effeithlon

- Mae'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni gynnig help i chi wneud hyn
- Felly cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i weld pa help sydd ar gael. Gall help gynnwys bylbiau golau ynni effeithlon neu inswleiddio am ddim
- Gall yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni gynnig cyngor ar effeithlonrwydd ynni ar 0800 512 012

# Mentrau lle rydych yn byw

**Warm Front (Lloegr)**: gall y fenter hon ddarparu pecyn o welliannau inswleiddio a gwresogi i gartrefi cymwys sy'n werth hyd at £3,500 (neu £6,000 os caiff technolegau olew, carbon isel neu adnewyddadwy eu hargymell).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Warm Front ar 0800 316 2805

**NYTH (Cymru)**: mae'r fenter hon yn darparu gwelliannau ynni os ydych yn cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, neu os oes gan eich cartref sgôr effeithlonrwydd ynni F neu G a'i fod yn eiddo preifat neu'n eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.nestwales.org.uk**

# Ynni – Y Fargen Orau - ewch ati i leihau eich bil ynni nawr

- Os nad ydych am newid cyflenwr gwnewch yn siŵr eich bod ar dariff rhataf eich cyflenwr, ac os nad ydych newidiwch
- Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni am help gydag effeithlonrwydd ynni
- Os ydych ar incwm isel cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i weld pa help sydd ar gael

# YNNI- Y FARGEN ORAU

Caiff ymgyrch Ynni – Y Fargen Orau 2011/12 ei chefnogi gan:

- Nwy Prydain
- EDF Energy
- E.ON
- npower
- Scottish and Southern Energy
- Scottish Power